**MINUTES OF A MEETING OF POWYS COUNTY COUNCIL HELD AT COUNTY HALL, LLANDRINDOD WELLS ON TUESDAY 25TH FEBRUARY 2014**

PRESENT
County Councillor J.H. Brunt (Chair)

County Councillors M.C. Alexander, P.J. Ashton, G.R. Banks, G. Bowker, R.G. Brown, L.V. Corfield, K.W. Curry, A.W. Davies, C. Davies, D.E. Davies, E.R. Davies, L.R.E. Davies, M.J.B. Davies, S.C. Davies, S. Davies, M.J. Dorrance, D.O. Evans, V.E. Evans, W.J. Evans, W.A. Fitzpatrick, R.I. George, M.R. Harris, P. Harris, S.M. Hayes, A. Holloway, J.C. Holmes, G.G. Hopkins, D.C. Jones, D.R. Jones, E.A. Jones, E. Michael. Jones, Eldrydd M. Jones, G.M. Jones, J.R. Jones, M.J. Jones, W.T. Jones, F.H. Jump, H. Lewis, P.E. Lewis, D.J. Mayor, S. McNicholas, P.J. Medlicott, R.H. Mills, E.T. Morgan, G. Morgan, J.G. Morris, W.J.T. Powell, W.D. Powell, D.R. Price, G.D. Price, P.C. Pritchard, G.W. Ratcliffe, K.M. Roberts-Jones, J.G. Shearer, K.S. Silk, K.F. Tampin, A.G. Thomas, D.G. Thomas, D.A. Thomas, R.G. Thomas, W.B. Thomas, T.G. Turner, T.J. Van Rees, G.P. Vaughan, D.H. Williams, G. Williams, J.M. Williams, S.L. Williams and A. York.

| 1. | APOLOGIES | CC22– 2014 |
|---|---|---|

Apologies for absence were received from County Councillors D. Bailey, M.C. Mackenzie and D.W. Meredith.

| 2. | DECLARATIONS OF INTEREST | CC23 – 2014 |
|---|---|---|

The following declarations of interest were made:
County Councillor M.C. Alexander, personal and prejudicial interest as a close relative works in an ALN unit and personal not prejudicial interest as an LEA appointed governor and member of the Management Committee of Caereinion Leisure Centre.
County Councillor P.J. Ashton, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.
County Councillor G.R. Banks, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor, uncle of child in school and as a trustee of the Judge’s Lodgings Presteigne.
County Councillor G.J. Bowker, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.
County Councillor R.G. Brown, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.
County Councillor J.H. Brunt, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor and as a trustee of PAVO.
County Councillor D.E. Davies, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor and parent of children attending Welshpool High School.
County Councillor E.R. Davies, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor and a personal and prejudicial interest as a trustee of PAVO not appointed by Council.

County Councillor L.R.E. Davies, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor and grandparent of child in school.
County Councillor S.C. Davies, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor and Council appointed representative on Care and Repair.
County Councillor S. Davies, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.
County Councillor M.J. Dorrance, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor and member of the GMB.
County Councillor W.J. Evans, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.
County Councillor W.A. Fitzpatrick, personal and prejudicial interest as relative affected by budget proposals on social care.
County Councillor M.R. Harris, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor and grandparent of child in school.
County Councillor A. Holloway, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.
County Councillor D.C. Jones, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.
County Councillor D.R. Jones, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor, member of Management Committees of Welshpool and Llanfair Caereinion Leisure Centres and relief meals on wheels driver.
County Councillor Eldrydd M. Jones, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor, grandchildren at schools member of Management Committees of Llanfair Caereinion and Llanfyllin Leisure Centres.
County Councillor E. Michael Jones, personal and pecuniary interest as a director of a day care centre.
County Councillor J. Jones personal and prejudicial interest as close relative affected by budget proposals and personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.
County Councillor M.J. Jones, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.
County Councillor W.T. Jones, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.
County Councillor F.J. Jump personal non prejudicial interest as volunteer driver for meals on wheels.
County Councillor H. Lewis, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.
County Councillor D.J. Mayor, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor, close relative works as outreach worker.
County Councillor S. McNicholas, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor as Council appointed representative for Ystradgynlais Welfare Hall.
County Councillor P.J. Medlicott, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.
County Councillor E.T. Morgan, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.
County Councillor G. Morgan, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor and member of the Management Committee of Llanidloes Leisure Centre.
County Councillor W.J.T. Powell, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.

County Councillor D.R. Price, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.
County Councillor P.C. Pritchard, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.
County Councillor G.W. Ratcliffe, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.
County Councillor K.M. Roberts-Jones, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.
County Councillor D.A. Thomas, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.
County Councillor D.G. Thomas, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor, bus pass holder, WI member.
County Councillor R.G. Thomas, personal non prejudicial interest as close relative involved with North Powys Youth Orchestra
County Councillor W.B. Thomas, personal and prejudicial interest in ALN through involvement with dyslexia organisation and a personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.
County Councillor T.G. Turner, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.
County Councillor T.J. Van Rees, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor and members of the Management Committee of Builth Wells Leisure Centre.
County Councillor G.P. Vaughan, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor and personal and prejudicial interest as a school transport operator.
County Councillor D.H. Williams, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor and personal and prejudicial interest as a close personal relative works in an ASD unit.
County Councillor G. Williams, personal non prejudicial interest as a governor [non LEA] of Garth School.
County Councillor J.M. Williams, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor, member of UNISON trade union, trustee of Bro Ddyfi Advice Centre, Machynlleth Community Children's Partnership, Community Action Machynlleth who have received funding from the Adult Social Care grant.
County Councillor S.L. Williams, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor.
County Councillor A. York, personal non prejudicial interest as an LEA appointed governor and trustee of Wyeside Arts Centre and a personal and prejudicial interest as a trustee of PAVO not appointed by Council.

| | | |
|---|---|---|
| **3.** | **MINUTES** | **CC24 – 2014** |

The Chairman was authorised to sign the minutes of the last meeting held on 22nd January 2014 as a correct record subject to the following addition to the minute for item 6 Changes by the Executive Leader in the Scheme of Delegation and Executive Functions highlighted in bold text below:

Council received the report of the Solicitor to the Council setting out the Cabinet appointments made by the Leader and detailing the revocation of the delegated

power for the Radnorshire Committee to make future Permanent Traffic Regulation Orders **in respect of Water Break its Neck and Moelfre City.**

| 4. | BUDGET FOR 2014-15, MEDIUM TERM FINANCIAL PLAN 2014-17 AND CAPITAL PROGRAMME FOR 2014-19 | CC25 – 2014 |
|---|---|---|

The Portfolio Holder for Finance presented the Budget report. He noted that a 4.6% decrease in the settlement from Welsh Government meant a reduction in funding of £8.712m. The Medium Term Financial Plan for 2014/15 included investment and service pressures of £12.237m, and in order to produce a balanced budget savings of £17.387m had been identified and included in the plan. The budget proposed an increase in Council Tax of 3.95%.

In addition to the savings outlined in the Budget report, the Cabinet tabled a paper proposing a further £336k in savings, but reducing the cut to Adult Social Service Grants from 50% to 30% and reducing the call on reserves from £975k to £665k. The Portfolio Holder for Finance explained that the Cabinet had looked at the proposals put forward by the Conservative group and had taken on board what they had considered deliverable. The Portfolio Holder for Adult Social Services proposed a further amendment to withdraw the proposal for full cost recovery for attendance at day centres at £36 per attendance up to a maximum of £50 per week. This would result in a £10,000 adjustment to the budget.

The leader of the Welsh Conservative Group moved an amendment to the budget (Appendix F to the report). The Chief Executive left the meeting during this part of the discussion as one of the proposals related to the pay of senior managers. The proposal included savings of £1,195m, reinstated funding for CAB, postponed the introduction of ALN savings and protected the grant given to North Powys Youth Music Trust. The proposal was for an increase in Council Tax of 2.3%. The leader of the Welsh Conservative Group argued that the amount of Council Tax in paid by households in Powys was amongst the highest in Wales when Council Tax benefit was taken into account.

A number of members expressed concerns that if the Council set a Council Tax at half the Welsh average then other Welsh authorities would be very unlikely in future years to support the “floor” without which the Council budget would have been £1.5m worse off.

A number of members questioned the proposal to cease operation of the Wyeside Caravan Park as it was a source of revenue for the Council. The Portfolio Holder for Regeneration explained that the intention was to sell it as a going concern.

A number of members spoke in support of CABs.

A number of members raised the issue of the consultation on ALN currently underway. County Councillors M.C. Alexander, J. Jones, W.B. Thomas and D.H. Williams left the meeting whilst ALN was discussed It was noted that there were

parts of the county were there was no provision and a number of members called for good practice to be rolled across the county. In the absence of the Portfolio Holder for Education and Children's Services who had a personal and prejudicial interest, County Councillor Brown explained that the proposals for ALN being consulted upon were not a savings exercise but a response to an Estyn inspection which had directed the Council to change the way in which it delivered the service. He recognised that the issue was getting confused and therefore proposed that the ALN proposal be removed from the budget to allow completion of the current consultation process. This would require the use of £87,500 reserves.

Following some further discussion, a motion that the amendment put forward by Councillor Brown be put to the vote was moved, seconded and approved.

**RESOLVED that the proposal in relation to ALN be removed from the budget for 2014/15 to allow completion of the current consultation process so the Cabinet can consider the results of the consultation. This requires the use of £87,500 reserves.**

The amendment to the budget put forward by the Welsh Conservative Group as set out in Appendix F to the report was then put to the vote and was lost.

Council then considered the amendment put forward by the Portfolio Holder for Adult Social Services not to seek to increase charges for attendance at day centres to full cost delivery at £36 per attendance up to a maximum of £50 per week. He was asked how the proposal on page 8 of Appendix C to the budget report squared with the Equality Impact Assessment (EqIA) and he acknowledged that the language used in the EqIA had caused confusion. He explained that what was being proposed was the reconfiguration and continued delivery of services rather than services being closed. He could not give any guarantees on future eligibility criteria or the maintaining of existing services and that either all services would be maintained in the same way or that some services would need to change shape significantly in order to afford a new model.

**RESOLVED that the proposal to seek to increase charges for attendance at day centres to full cost delivery at £36 per attendance up to a maximum of £50 per week be removed from the budget.**

The amendment put forward by the Cabinet proposing a further £336k in savings, but reducing the cut to Adult Service Grants from 50% to 30% and reducing the call on reserves from £975k to £665k was put to the vote and was lost.

Council then considered the Budget as amended in respect of ALN and cost recovery for attendance at day centres. The Portfolio Holder for Finance confirmed that the Cabinet did have the EqIAs when they considered the budget at the meeting on 18th February. Members asked about provision of meals on wheels for those clients who required the service. The Portfolio Holder for Adult Social Services gave an assurance that those who needed meals would continue to receive them

but not in the same way as now. He gave an undertaking to engage with local members on the reconfiguration of services.

A number of members questioned how deliverable the savings proposals in the budget were and at the burden being placed on schools.

The leader of the Welsh Labour Group put forward an amendment to defer consideration of the budget so a cross party group could be established to look again at the high risk elements of the budget to ensure that they were SMART and that the Council Tax fairly reflects the Welsh average.

Following an adjournment for a meeting of group leaders, Council was advised that the group leaders had agreed to meet to seek to come to some agreement. The leader of the Welsh Labour Group agreed to withdraw her motion and on her motion, duly seconded it was

**RESOLVED that consideration of the budget be deferred until 5th March.**

**J.H. BRUNT**
**CHAIR**

**COFNODION CYFARFOD O GYNGOR SIR POWYS A GYNHALIWYD YN NEUADD Y SIR, LLANDRINDOD DDYDD MAWRTH 25 CHWEFROR, 2014**

YN BRESENNOL
Y Cynghorydd Sir J.H. Brunt (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Sir M.C. Alexander, P.J. Ashton, G.R. Banks, G. Bowker, R.G. Brown, L.V. Corfield, K.W. Curry, A.W. Davies, C. Davies, D.E. Davies, E.R. Davies, L.R.E. Davies, M.J.B. Davies, S.C. Davies, S. Davies, M.J. Dorrance, D.O. Evans, V.E. Evans, W.J. Evans, W.A. Fitzpatrick, R.I. George, M.R. Harris, P. Harris, S.M. Hayes, A. Holloway, J.C. Holmes, G.G. Hopkins, D.C. Jones, D.R. Jones, E.A. Jones, E. Michael. Jones, Eldrydd M. Jones, G.M. Jones, J.R. Jones, M.J. Jones, W.T. Jones, F.H. Jump, H. Lewis, P.E. Lewis, D.J. Mayor, S. McNicholas, P.J. Medlicott, R.H. Mills, E.T. Morgan, G. Morgan, J.G. Morris, W.J.T. Powell, W.D. Powell, D.R. Price, G.D. Price, P.C. Pritchard, G.W. Ratcliffe, K.M. Roberts-Jones, J.G. Shearer, K.S. Silk, K.F. Tampin, A.G. Thomas, D.G. Thomas, D.A. Thomas, R.G. Thomas, W.B. Thomas, T.G. Turner, T.J. Van Rees, G.P. Vaughan, D.H. Williams, G. Williams, J.M. Williams, S.L. Williams ac A. York.

| **1.** | **YMDDIHEURIADAU** | **CC22-2014** |
|---|---|---|

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Sir D. Bailey, M.C. Mackenzie a D.W. Meredith.

| **2.** | **DATGANIADAU O FUDDIANT** | **CC23 – 2014** |
|---|---|---|

Gwnaed y datganiadau o fuddiant canlynol:
Y Cynghorydd Sir M.C. Alexander, buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu oherwydd bod perthynas agos yn gweithio mewn uned ADY a buddiant personol heb fod yn rhagfarnu fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl ac aelod o Bwyllgor Rheoli Canolfan Hamdden Caereinion.
Y Cynghorydd Sir P.J. Ashton, buddiant personol heb fod yn rhagfarnu fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl.
Y Cynghorydd Sir G.R. Banks, buddiant personol heb fod yn rhagfarnu fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl; ewythr plentyn yn yr ysgol ac un o ymddiriedolwyr Llety'r Barnwr yn Llanandras.
Y Cynghorydd Sir G.J. Bowker, buddiant personol heb fod yn rhagfarnu fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl.
Y Cynghorydd Sir R.G. Brown, buddiant personol heb fod yn rhagfarnu fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl.
Y Cynghorydd Sir J.H. Brunt, buddiant personol heb fod yn rhagfarnu fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl ac fel ymddiriedolwr CMGP (PAVO).
Y Cynghorydd Sir D.E. Davies, buddiant personol heb fod yn rhagfarnu fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl a rhiant plant sy'n mynychu Ysgol Uwchradd Y Trallwng.
Y Cynghorydd Sir E.R. Davies, buddiant personol heb fod yn rhagfarnu fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl a buddiant personol ac sy'n rhagfarnu fel ymddiriedolwr CMGP (PAVO) na chafodd ei benodi gan y Cyngor.

Y Cynghorydd Sir L.R.E. Davies, buddiant personol heb fod yn rhagfarnu fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl a thaid plentyn yn yr ysgol.
Y Cynghorydd Sir S.C. Davies, buddiant personol heb fod yn rhagfarnu fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl a chynrychiolydd a benodwyd gan y Cyngor ynghylch Gofal a Thrwsio.
Y Cynghorydd Sir S. Davies, heb fod yn rhagfarnu a benodwyd fel llywodraethwr gan yr AALl.
Y Cynghorydd Sir M.J. Dorrance, buddiant personol heb fod yn rhagfarnu fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl ac aelod o'r GMB.
Y Cynghorydd Sir W.J. Evans, buddiant personol heb fod yn rhagfarnu a benodwyd fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl.
Y Cynghorydd Sir W.A. Fitzpatrick, buddiant personol ac sy'n rhagfarnu oherwydd bod perthynas yn cael ei effeithio gan gynigion y gyllideb ar ofal cymdeithasol.
Y Cynghorydd Sir M.R. Harris, buddiant personol heb fod yn rhagfarnu fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl a thaid plentyn yn yr ysgol.
Y Cynghorydd Sir A. Holloway, buddiant personol heb fod yn rhagfarnu fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl
Y Cynghorydd Sir D.C. Jones, buddiant personol heb fod yn rhagfarnu fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl.
Y Cynghorydd Sir D.R. Jones, buddiant personol heb fod yn rhagfarnu fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl, aelod o Bwyllgorau Rheoli Canolfannau Hamdden Y Trallwng a Llanfair Caereinion a gyrrwr achlysurol prydau ar glud.
Y Cynghorydd Sir Eldrydd M. Jones, buddiant personol heb fod yn rhagfarnu fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl, wyrion mewn ysgolion, aelod o Bwyllgorau Rheoli Canolfannau Hamdden Llanfair Caereinion a Llanfyllin.
Y Cynghorydd Sir Michael Jones, buddiant personol ac ariannol fel cyfarwyddwr canolfan gofal dydd.
Y Cynghorydd Sir J. Jones, buddiant personol ac sy'n rhagfarnu oherwydd bod perthynas agos wedi'i effeithio gan gynigion y gyllideb a buddiant personol heb fod yn rhagfarnu fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl.
Y Cynghorydd Sir M.J. Jones, buddiant personol heb fod yn rhagfarnu fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl.
Y Cynghorydd Sir W.T. Jones, buddiant personol heb fod yn rhagfarnu fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl.
Y Cynghorydd Sir F.J. Jump, buddiant personol heb fod yn rhagfarnu fel gyrrwr gwirfoddol ar gyfer prydau ar glud.
Y Cynghorydd Sir H. Lewis, buddiant personol heb fod yn rhagfarnu fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl,
Y Cynghorydd Sir D.J. Mayor, buddiant personol heb fod yn rhagfarnu fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl; mae perthynas agos yn gweithio fel gweithiwr allgymorth.
Y Cynghorydd Sir McNicholas, buddiant personol heb fod yn rhagfarnu fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl, fel cynrychiolydd a benodwyd gan y Cyngor ar gyfer Neuadd Les Ystradgynlais.
Y Cynghorydd Sir P.J. Powell, buddiant personol heb fod yn rhagfarnu fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl,
Y Cynghorydd Sir E.T. Morgan, buddiant personol heb fod yn rhagfarnu fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl,

Y Cynghorydd Sir G. Morgan, buddiant personol heb fod yn rhagfarnu fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl, ac aelod o Bwyllgor Rheoli Canolfan Hamdden Llanidloes.
Y Cynghorydd Sir W.J.T. Powell, buddiant personol heb fod yn rhagfarnu fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl.
Y Cynghorydd Sir D.R. Price, buddiant personol heb fod yn rhagfarnu fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl,
Y Cynghorydd Sir P.C. Pritchard, buddiant personol heb fod yn rhagfarnu fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl,
Y Cynghorydd Sir G.W. Ratcliffe, buddiant personol heb fod yn rhagfarnu fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl,
Y Cynghorydd Sir K.M. Roberts-Jones, buddiant personol heb fod yn rhagfarnu fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl,
Y Cynghorydd Sir D.A. Thomas, buddiant personol heb fod yn rhagfarnu fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl,
Y Cynghorydd Sir D.G. Thomas, buddiant personol heb fod yn rhagfarnu fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl, deiliad tocyn bws, aelod o Sefydliad y Merched.
Y Cynghorydd Sir R.G. Thomas, buddiant personol heb fod yn rhagfarnu oherwydd bod perthynas agos yn ymwneud â Cherddorfa Ieuenctid Gogledd Powys
Y Cynghorydd Sir W.B. Thomas, buddiant personol ac sy'n rhagfarnu mewn ADY drwy gysylltiad â sefydliad dyslecsia a buddiant personol heb fod yn rhagfarnu fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl.
Y Cynghorydd Sir T.G.Turner, buddiant personol heb fod yn rhagfarnu fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl.
Y Cynghorydd Sir T.J. Van Rees, buddiant personol heb fod yn rhagfarnu fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl, ac aelod o Bwyllgor Rheoli Canolfan Hamdden Llanfair-ym-Muallt.
Y Cynghorydd Sir G.P. Vaughan, buddiant personol heb fod yn rhagfarnu fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl, a buddiant personol ac sy'n rhagfarnu fel gweithredwr cludiant ysgol yr AALl.
Y Cynghorydd Sir D.H. Williams, buddiant personol heb fod yn rhagfarnu fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl, a buddiant personol ac sy'n rhagfarnu oherwydd bod perthynas agos yn gweithio mewn uned ASD.
Williams, buddiant personol heb fod yn rhagfarnu fel llywodraethwr Ysgol y Garth [heb fod yn ysgol yr AALl.}
Y Cynghorydd Sir J.M. Williams, buddiant personol heb fod yn rhagfarnu fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl, aelod o undeb llafur UNSAIN, ymddiriedolwr Canolfan Cynghori Bro Ddyfi, Partneriaeth Plant Cymunedol Machynlleth, Gweithredu Cymunedol Machynlleth sydd wedi derbyn arian gan y grant Gofal Cymdeithasol i Oedolion.
Y Cynghorydd Sir S.L. Williams, buddiant personol heb fod yn rhagfarnu fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl.
Y Cynghorydd Sir A. York, buddiant personol heb fod yn rhagfarnu fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl, ac ymddiriedolwr Canolfan Gelfyddydau Glannau Gwy a buddiant personol ac sy'n rhagfarnu fel ymddiriedolwr o CMGP (PAVO) na chafodd ei benodi gan y Cyngor.

| **3.** | **COFNODION** | **CC24 – 2014** |
|---|---|---|

Awdurdodwyd y Cadeirydd i arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 22 Ionawr, 2014 fel cofnod cywir yn amodol ar ychwanegu'r canlynol at y cofnod ar gyfer eitem 6 Newidiadau gan yr Arweinydd Gweithredol yn y Cynllun Dirprwyo a Swyddogaethau Gweithredol a amlygir mewn print trwm isod:

Derbyniodd y Cyngor adroddiad Cyfreithiwr y Cyngor yn nodi'r penodiadau i'r Cabinet a wnaed gan yr Arweinydd ac yn manylu ar ddiddymu'r pŵer dirprwyedig i Bwyllgor Sir Faesyfed i wneud Gorchmynion Rheoli Trafnidiaeth Parhaol yn y dyfodol **yn ymwneud â Water Break its Neck a Moelfre City.**

| | | |
|---|---|---|
| **4.** | **CYLLIDEB AR GYFER 2014-15, CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2014-17 A RHAGLEN GYFALAF AR GYFER 2014-19** | **CC25 – 2014** |

Cyflwynodd yr Aelod Portffolio dros Gyllid yr adroddiad ar y Gyllideb. Nododd fod gostyngiad o 4.6% yn y setliad gan Lywodraeth Cymru sy'n golygu gostyngiad o £8.712m yn y cyllid. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2014/15 yn cynnwys pwysau ar fuddsoddi a gwasanaethau o £12.237m, ac er mwyn cynhyrchu cyllideb gytbwys nodwyd arbedion o £17.387m ac maent wedi eu cynnwys yn y cynllun. Roedd y gyllideb yn cynnig cynnydd o 3.95% yn Nhreth y Cyngor.

Yn ychwanegol at yr arbedion a amlinellwyd yn yr adroddiad ar y Gyllideb, cyflwynodd y Cabinet bapur yn cynnig £336,000 pellach mewn arbedion, ond gan leihau'r toriad i Grantiau'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion o 50% i 30% a chan leihau'r galw ar gronfeydd wrth gefn o £975,000 i £665,000. Eglurodd yr Aelod Portffolio dros Gyllid bod y Cabinet wedi edrych ar y cynigion a gyflwynwyd gan y Grŵp Ceidwadol ac wedi rhoi sylw i'r hyn yr oeddent yn ystyried oedd yn bosibl ei gyflawni. Cynigiodd yr Aelod Portffolio dros y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion ddiwygiad pellach i ddileu'r cynnig am adennill costau llawn am fynychu canolfannau dydd yn ôl £36 am fynychu bob tro hyd at uchafswm o £50 yr wythnos. Byddai hyn yn arwain at addasiad o £10,000 i'r gyllideb.

Cynigiodd arweinydd Grŵp Ceidwadol Cymru welliant i'r gyllideb (Atodiad F i'r adroddiad). Gadawodd y Prif Weithredwr y cyfarfod yn ystod y rhan hon o'r drafodaeth oherwydd bod un o'r cynigion yn ymwneud â chyflogau uwch reolwyr. Roedd y cynnig yn cynnwys arbedion o £1,195 m, adfer cyllid ar gyfer Cyngor ar Bopeth, gohirio cyflwyno arbedion ADY ac yn diogelu'r grant a roddwyd i Ymddiriedolaeth Cerddoriaeth Ieuenctid Gogledd Powys. Y cynnig oedd cynnydd o 2.3% yn Nhreth y Cyngor. Roedd arweinydd Grŵp Ceidwadol Cymru yn dadlau bod swm Treth y Cyngor a delir gan gartrefi ym Mhowys ymhlith yr uchaf yng Nghymru pan oedd budd-dal Treth y Cyngor yn cael ei ystyried.

Mynegodd nifer o aelodau bryderon os bydd y Cyngor yn gosod Treth y Cyngor ar hanner cyfartaledd Cymru, yna byddai awdurdodau eraill Cymru yn annhebygol iawn yn y blynyddoedd i ddod i gefnogi'r "llawr" y byddai cyllideb y Cyngor wedi bod yn £1.5m yn llai hebddo.

Roedd nifer o aelodau yn amheus ynghylch y cynnig i roi'r gorau i weithredu Maes Carafanau Wyeside gan ei fod yn ffynhonnell refeniw i'r Cyngor. Esboniodd yr Aelod Portffolio dros Adfywio mai'r bwriad oedd ei werthu fel busnes gweithredol.

Siaradodd nifer o aelodau o blaid y Canolfannau Cyngor ar Bopeth.

Nododd nifer o aelodau fod ymgynghoriad ynghylch ADY ar y gweill ar hyn o bryd. Gadawodd y Cynghorwyr Sir M.C. Alexander, J. Jones, W.B. Thomas a D.H. Williams y cyfarfod pan gafodd ADY ei drafod. Nodwyd bod rhannau o'r sir lle nad oedd unrhyw ddarpariaeth a galwodd nifer o'r aelodau am gyflwyno arfer da ar draws y sir. Yn absenoldeb yr Aelod Portffolio dros Addysg a Gwasanaethau Plant a oedd â buddiant personol ac sy'n rhagfarnu, esboniodd y Cynghorydd Sir Brown nad oedd y cynigion ar gyfer ADY yr ymgynghorir arnynt yn ymarferiad i wneud arbedion, ond yn ymateb i arolygiad Estyn a oedd wedi gorchymyn i'r Cyngor newid y ffordd y mae'n darparu'r gwasanaeth. Roedd yn cydnabod bod y mater yn mynd yn un dryslyd ac felly cynigiodd bod y cynnig ynghylch ADY yn cael ei dynnu o'r gyllideb er mwyn gallu cwblhau'r broses ymgynghori sy'n digwydd ar hyn o bryd. Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddio £87,500 o'r cronfeydd wrth gefn.

Yn dilyn trafodaeth bellach, cynigiwyd bod y gwelliant a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Brown yn cael ei roi i bleidlais, cafodd ei eilio a'i gymeradwyo.

**PENDERFYNWYD bod y cynnig mewn perthynas ag ADY yn cael ei dynnu o'r gyllideb ar gyfer 2014/15 er mwyn cwblhau'r broses ymgynghori bresennol fel y gallai'r Cabinet ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddio £87,500 o'r cronfeydd wrth gefn.**

Yna cafodd y gwelliant i'r gyllideb a gyflwynwyd gan Grŵp Ceidwadwyr Cymru fel y nodir ef yn Atodiad F i'r adroddiad ei roi i bleidlais ac fe'i collwyd.

Yna, ystyriodd y Cyngor y gwelliant a gyflwynwyd gan yr Aelod Portffolio dros y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion i beidio â cheisio cynyddu'r taliadau am fynychu canolfannau dydd i gyflenwi cost lawn, sef £36 am bob ymweliad hyd at

uchafswm o £50 yr wythnos. Gofynnwyd iddo sut roedd y cynnig ar dudalen 8 Atodiad C i'r adroddiad ar y gyllideb yn cyd-fynd gyda'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) ac roedd yn cydnabod bod yr iaith a ddefnyddiwyd yn yr AEC wedi achosi dryswch. Esboniodd mai'r hyn oedd yn cael ei gynnig oedd ad-drefnu a pharhau i gyflwyno gwasanaethau yn hytrach na gwasanaethau yn cael eu cau. Ni allai roi unrhyw sicrwydd ynghylch meini prawf cymhwyster yn y dyfodol nac ynghylch cynnal y gwasanaethau presennol. Ni allai ychwaith roi sicrwydd y byddai'r holl wasanaethau yn cael eu cynnal yn yr un ffordd ac roedd yn cydnabod efallai y byddai angen i rai gwasanaethau newid eu ffurf yn sylweddol er mwyn cyflwyno model newydd.

**PENDERFYNWYD bod y cynnig i geisio cynyddu taliadau am fynychu canolfannau dydd i gyflenwi cost lawn, yn ôl £36 yr ymweliad hyd at uchafswm o £50 yr wythnos yn cael ei dynnu o'r gyllideb.**

Cafodd y gwelliant a gyflwynwyd gan y Cabinet yn cynnig £336,000 pellach mewn cynilion, ond yn lleihau'r toriad i Grantiau Gwasanaethau Oedolion o 50% i 30% a lleihau'r galw ar gronfeydd wrth gefn o £975,000 i £665,000 ei roi i bleidlais ac fe'i collwyd.

Yna, ystyriodd y Cyngor y Gyllideb fel y'i diwygiwyd mewn perthynas ag ADY ac adennill costau ar gyfer presenoldeb mewn canolfannau dydd. Cadarnhaodd yr Aelod Portffolio dros Gyllid nad oedd yr Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb gan y Cabinet pan wnaethant ystyried y gyllideb yn y cyfarfod ar 18 Chwefror. Gofynnodd yr Aelodau am ddarparu prydau bwyd ar glud ar gyfer y cleientiaid hynny sydd angen y gwasanaeth. Rhoddodd yr Aelod Portffolio dros y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion sicrwydd y byddai'r rhai a oedd angen prydau bwyd yn parhau i'w derbyn, ond nid yn yr un ffordd. Rhoddodd ymrwymiad i ymgysylltu ag aelodau lleol ynghylch ad-drefnu'r gwasanaethau.

Holodd nifer o aelodau pa mor bosibl oedd cyflawni'r cynigion i wneud arbedion yn y gyllideb ac am y baich a roddir ar ysgolion.

Cyflwynodd arweinydd Grŵp Llafur Cymru welliant i ohirio ystyried y gyllideb fel y gallai grŵp trawsbleidiol gael ei sefydlu i edrych eto ar elfennau risg uchel y gyllideb er mwyn sicrhau eu bod yn SMART a bod Treth y Cyngor yn adlewyrchiad teg o gyfartaledd Cymru.

Yn dilyn gohiriad ar gyfer cyfarfod o arweinwyr y grwpiau, hysbyswyd y Cyngor bod arweinwyr y grwpiau wedi cytuno i gyfarfod i geisio dod i ryw gytundeb. Cytunodd arweinydd Grŵp Llafur Cymru i dynnu ei chynnig yn ôl ac yn dilyn ei chynnig, a eiliwyd yn briodol

**PENDERFYNWYD gohirio ystyried y gyllideb tan 5 Mawrth.**

**J.H. BRUNT**
**CADEIRYDD**